# rydym yn recriwtio

## ymunwch â tîm dll












# Arweinydd Gweithredu Systemau Adnoddau Dynol

**Lleoliad:** DLL HQ, Trem Y Dyffryn, Dinbych

**Gradd Cyflog:** 11  £45,718 - £49,764  (yn amodol ar werthusiad)

**Oriau:** Llawn amser, 37 awr yr wythnos

**Contract:** Parhaol

**Dyddiad Cau:** 24ain Ionawr, 2025

## Sut i ymgeisio:

I ymgeisio, anfonwch eich CV i Pobl@hamddensirddinbych.co.uk. Am ddulliau amgen o Am ddulliau amgen o wneud cais, cysylltwch â thîm Ein Pobl ar 01824 706724.

Byddwn yn llunio rhestr fer ar gyfer cyfweliad unwaith y bydd y swydd wag wedi cau, ac os ydych wedi cael eich dewis ar gyfer cyfweliad, byddwch yn derbyn e-bost gyda'r manylion. Sicrhewch eich bod yn gwirio eich ffolderi junk/spam.

**Mae'r dogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English**

## Amdanom Ni

Trwy fuddsoddiad parhaus dros 12 mlynedd, mae HSDdCyf wedi datblygu portffolio o gyfleusterau sy’n arwain y sector, gan gynnwys 7 cyfleuster ffitrwydd premiwm, 7 darpariaeth bwyd a diod unigryw, 2 atyniad anhygoel a theatr syfrdanol â 1,000 o seddi.

Mae tîm HSDd yn dîm sefydledig, angerddol sy'n cael ei yrru, gyda diwylliant o berfformiad uchel a gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol. Mae ein llwyddiannau yn y gorffennol wedi ein harwain i ble'r ydym heddiw, gydag enw rhagorol yn ein holl gyfleusterau, a thîm gweithgar sy'n ffynnu ar y cwsmer yn cael y profiadau gorau posibl.

Rydyn ni'n gweithio i athroniaeth 'un tîm, un cyfrif banc' - rydyn ni i gyd yn un tîm, pa waeth ym mha safle rydych chi wedi'ch lleoli. Gyda'n gilydd rydyn ni i gyd yn cyfrannu at wneud HSDdCyf yn llwyddiannus

## Ein Gwerthoedd

- Uchelgais a Thwf
- Ymddiriedolaeth ac Uniondeb
- Rhagoriaeth a Gwydnwch
- Balchder ac Angerdd



Swydd-ddisgrifiad

**Teitl y Swydd:** Arweinydd Gweithredu Systemau Adnoddau Dynol
**Graddfa:** 11 £45,718 i £49,764 (yn amodol ar werthusiad)
**Cwmni:** Hamdden Sir Ddinbych Cyf
**Maes Gwasanaeth:** Llywodraethu a Chymorth Busnes
**Yn atebol i'r:** Pennaeth Llywodraethu

## Pwrpas y Swydd:

Cefnogi'r Pennaeth Llywodraethu gyda'r gwaith o arwain prosiectau newid sefydliadol, ac yn benodol arwain ar weithredu datrysiad AD a Chyflogau newydd ar gyfer y cwmni.
Bydd deiliad y swydd yn arwain y gwaith o weithredu'r datrysiad newydd hwn, gan sicrhau y cyflwynir system sy'n symleiddio ac yn awtomeiddio gweithrediadau presennol, o safbwynt swyddfa gefn yn ogystal ag o safbwynt y gweithiwr. Byddant yn gweithredu fel cyswllt gyda budd-ddeiliaid prosiect allweddol - yn fewnol ac yn allanol i DLL, gan sicrhau bod y prosiect yn cael ei gyflawni ar amser ac yn unol â'r fanyleb ofynnol.
Bydd gan ddeiliad y swydd gefndir cadarn o ran rheoli prosiectau, a phrofiad amlwg o gyflawni prosiectau systemau trawsnewid yn llwyddiannus.
Fel rhan allweddol o wasanaeth Llywodraethu a Chymorth Busnes y cwmni, byddwch yn gweithio'n agos â budd-ddeiliaid prosiect allweddol i reoli a datblygu'r gwaith o weithredu'r platfform AD a Chyflogau newydd. Byddwch yn meithrin dealltwriaeth o'r gofynion y mae'r cwmni'n dymuno eu cael o'r platfform newydd, ac yn sicrhau bod y platfform yn cydymffurfio ac wedi'i ddatblygu i gyflawni'r nodau hyn.

## Prif Atebolrwydd a Chyfrifoldebau:

- Cefnogi'r busnes drwy gyfnod o newid sylweddol. Ymysg rhai yn unig o'r dyletswyddau hyn fydd y datrysiad AD a Chyflogau newydd, a symud o ddarparwyr presennol y platfformau cysylltiedig hyn.
- Datblygu, ac yn y pen draw, goruchwylio cynllun prosiect manwl ar gyfer gweithredu datrysiad AD a Chyflogau newydd, gan nodi cerrig milltir allweddol a'r risgiau fel rhan o'r prosiect.
- Gweithredu prosesau allweddol i sicrhau cywirdeb data, gan weithio'n agos gyda'r darparwyr AD a Chyflogau presennol, ochr yn ochr â phersonél allweddol eraill y prosiect.
- Goruchwylio'r gwaith o fudo data o'r hen systemau AD, Cyflogau a rhai sy'n gysylltiedig â phobl – er mwyn sicrhau lefel uchel o ran cywirdeb ac uniondeb data, fel rhan o'r prosiect.
- Darparu arweinyddiaeth, strwythur a chyfeiriad i aelodau'r Tîm Prosiect – gan gynnwys Uwch Reolwyr.
- Darparu adroddiadau diweddaru prosiect i fudd-ddeiliaid allweddol y prosiect a chyflwyno adborth ar bob cam.

- Darparu hyfforddiant a mentoriaeth lle bo angen ar gyfer arferion rheoli prosiect.
- Darparu hyfforddiant a chefnogaeth i gydweithwyr ar systemau a phrosesau newydd sy'n deillio o'r broses o weithredu.
- Gweithio'n agos gyda swyddogaethau Rheoli Gweithredol, Pobl a Chyllid o fewn y cwmni, ynghyd â darparwyr TGCh, AD a Chyflogau presennol, ac adrannau busnes eraill i grynhoi gofynion system, gan sicrhau bod y platfform newydd yn cyd-fynd ag anghenion y cwmni.
- Sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i awtomeiddio wrth ddatblygu'r system – a gwneud y mwyaf o'r system newydd, gan sicrhau bod prosesau ac adroddiadau perthnasol yn cael eu llunio fel rhan o'r cynllun prosiect.
- Llunio cynlluniau prosiect cynhwysfawr ar gyfer gweithredu'r system newydd, gan bennu cerrig milltir allweddol, amserlenni, adnoddau a strategaethau lliniaru risg.
- Llunio adroddiadau amserol a manwl ynghylch amserlenni a cherrig milltir prosiectau yn rheolaidd, fel sy'n ofynnol gan y Pennaeth Llywodraethu, y Tîm Gweithredol a'r Uwch Reolwyr.
- Gweithio ar y cyd â'r timau Cyllid a Phobl i lanhau ac echdynnu data, ar gyfer ei fudo.
- Goruchwylio'r gwaith o fudo data o hen systemau i'r platfform newydd, gan sicrhau cywirdeb ac uniondeb data drwy gydol y broses.
- Arwain a datblygu staff fel rhan o'r prosiect.
- Rheoli cyfnodau profi systemau, gan gynnwys profi derbyniad defnyddwyr, er mwyn sicrhau bod y platfform newydd yn bodloni gofynion busnes a thechnegol.
- Datrys unrhyw faterion sy'n codi wrth brofi neu ar ôl gweithredu a gweithio gyda'r darparwr system i'w datrys.
- Llunio polisïau, prosesau a gweithdrefnau yn unol â datblygiad y system.

O bryd i'w gilydd, efallai y bydd angen i ddeiliad y swydd ddirprwyo ar ran y Pennaeth Llywodraethu, gan gynnwys:

- Chwarae rhan arweiniol yn y gwaith o reoli prosiectau trawsnewid busnes nesaf y cwmni, gan gynnwys llunio cynlluniau prosiect manwl a darparu adroddiadau diweddaru i fudd-ddeiliaid allweddol.
- Cyfrannu at ddatblygiad a gweithrediad cyffredinol trefniadau llywodraethu'r cwmni, ac yn benodol y rhai sy'n canolbwyntio ar y platfform AD a Chyflogau newydd.
- Sefydlu a chynnal lefel uchel o hygrededd a rheoli perthnasoedd gwaith cadarn gyda sefydliadau allanol, gan gynnwys cyflenwyr a budd-ddeiliaid allanol allweddol.
- Unrhyw dasg resymol y gofynnir amdani drwy dîm Rheoli Gweithredol y cwmni.

## Goruchwylio/Rheoli Pobl

- Bydd deiliad y swydd yn goruchwylio pedwar aelod o'r tîm prosiect, fel rhan o'r gwaith o weithredu'r prosiect.
- Yn absenoldeb y Pennaeth Llywodraethu, bydd gofyn i ddeiliad y swydd weithio'n annibynnol ar lefel strategol, yn ogystal â gallu darparu diweddariadau, cyngor a her i fudd-ddeiliaid prosiect allweddol ar draws ystod o feysydd.
- Bydd deiliad y swydd yn rhoi cyngor ac arweiniad clir i'r tîm prosiect ynghylch eu meysydd arbenigol.
- Bydd gofyn i ddeiliad y swydd ddarparu hyfforddiant a mentoriaeth yn ôl yr angen ar gyfer arferion rheoli prosiect a phrosesau newydd sy'n deillio o weithredu'r system.

## Cymwysterau, Profiad a Gwybodaeth:

- Hanes amlwg o gyflawni prosiectau a rheoli systemau AD yn llwyddiannus.
- Profiad cadarn o ran defnyddio systemau AD a gwella prosesau.
- Mae'n rhaid i ddeiliad y swydd feddu ar y gallu i reoli a chyflawni prosiectau yn effeithiol o fewn amserlen benodol, er mwyn cyflawni amcanion y cwmni yn y pen draw.
- Dangos lefel uchel o sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol, gan fod y gallu i feithrin perthnasoedd â budd-ddeiliaid prosiect a gwneud argymhellion priodol ynghylch blaenoriaethau busnes allweddol, yn hanfodol.
- Mae'n rhaid i ddeiliad y swydd feddu ar yr hyder i gyfathrebu a herio budd-ddeiliaid ar bob lefel o fewn y sefydliad, gan gynnwys cyflwyno gwybodaeth trwy ddulliau priodol.
- Profiad o ddefnyddio a datblygu systemau i gefnogi'r gwaith dyddiol o reoli busnes.
- Gallu defnyddio a chymhwyso sgiliau TGCh perthnasol yn unol â natur a gofynion y swydd.

## Amodau Gwaith Arbennig

- Mae'n rhaid i ddeiliad y swydd allu teithio ar draws Sir Ddinbych a thelir lwfans am hyn, ond mae'r trefniant hwnnw dan adolygiad ar hyn o bryd.
- Er mai swydd 37 awr yr wythnos yw hon, mae angen agwedd hyblyg tuag at yr oriau gwaith craidd. Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd weithio'r oriau sydd eu hangen ar gyfer y swydd.
- Bydd gofyn i ddeiliad y swydd weithio o fewn terfynau amser tynn ac o fewn cyllidebau penodol.
- Bydd gofyn i ddeiliad y swydd gwblhau tasgau heb oruchwyliaeth, a rhaid iddynt brofi eu bod yn gallu gweithio ar eu liwt eu hunain.
- Mae'n rhaid gallu blaenoriaethu gwaith, delio â blaenoriaethau sy'n gwrthdaro a bodloni terfynau amser ar gyfer y swydd hon.

# Manylion am yr Unigolyn

## Teitl Swydd: Arweinydd Gweithredu Systemau Adnoddau Dynol

### Meini Prawf Hanfodol

- O leiaf 3 blynedd o brofiad mewn swydd yn ymwneud â rheoli prosiect.
- Tystiolaeth o fonitro prosiectau - gan gynnwys rhannu diweddariadau ynghylch prosiectau yn rheolaidd, mynd i'r afael â phryderon, a rheoli disgwyliadau budd-ddeiliaid
- Hyfedredd o ran cyflunio systemau ac unioni'r cyfluniad hwn â phrosesau busnes.
- Tystiolaeth o fudo data rhwng systemau yn gywir.
- Rheoli'r gwaith o brofi'r system, gan gynnwys profi derbyniad defnyddwyr, er mwyn sicrhau bod y system yn bodloni'r anghenion busnes allweddol.
- Cymryd rhan mewn prosiectau newid sefydliadol ar raddfa eang.
- Gallu amlwg i weithio'n effeithlon wrth reoli amcanion prosiect a sicrhau datrysiadau busnes llwyddiannus.
- Sgiliau trefnu ardderchog a'r gallu i flaenoriaethu.
- Sgiliau TG a gweinyddol cadarn – profiad o ddefnyddio Microsoft Excel yn benodol, a sgiliau Excel uwch.
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol ar lafar ac yn ysgrifenedig.
- Gweithio'n gywir ac yn fanwl iawn.
- Unigolyn llawn cymhelliant gyda'r gallu i weithio ar eich liwt eich hun ac fel rhan o dîm.
- Gallu gweithio dan gyfarwyddyd ac o fewn canllawiau clir, gyda'r gallu i ddatrys problemau.
- Empathi tuag at y Gymraeg a diwylliant Cymru.
- Profiad o weithio gyda systemau newydd ac o'u gweithredu..

# Manylion am yr Unigolyn

## Post title: Arweinydd Gweithredu Systemau Adnoddau Dynol

### Meini Prawf Dymunol

- Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus.
- Cymhwyster Rheoli Prosiect.
- Profiad o ddefnyddio meddalwedd a chyfarpar Rheoli Prosiect.
- Profiad a gwybodaeth am brosesau cyffredinol AD a Chyflogau, gan gynnwys recriwtio, cyflogau a chydymffurfiaeth.
- Hyfforddiant a datblygiad diweddar o ran TGCh a/neu systemau - yn ddelfrydol o fewn amgylchedd rheoli prosiect.
- Gallu cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg.



### Archwiliadau Cyflogaeth / Gofynion Penodol

Mae gofyn i weithwyr newydd fynd drwy ein gwiriadau recriwtio mwy diogel; enhanced DBS check, 2 eirda boddhaol yn cwmpasu 3 blynedd o gyflogaeth, tystiolaeth o gymwysterau hanfodol, tystiolaeth o'r Hawl i Weithio yn y DU.

Rydym yn annog ac yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr o ddiwylliannau, safbwyntiau a phrofiadau byw amrywiol.

### Datganiad Diogelu

Mae Hamdden Sir Ddinbych Cyf yn cydnabod ei rwymedigaethau i ddiogelu plant ac atal caethwasiaeth a masnachu mewn pobl, gan wneud popeth o fewn ei allu i atal caethwasiaeth a masnachu mewn pobl o fewn ei fusnesau. Mae sawl math o gaethwasiaeth fodern, gan gynnwys masnachu mewn pobl, llafur gorfodol, caethiwed a chaethwasiaeth.

Mae diogelu yn bwysig i bawb, ac mae gofyn i holl gyflogeion Hamdden Sir Ddinbych weithio yn unol â pholisïau a gweithdrefnau Diogelu Oedolion / Plant y corff, mae dyletswydd arnynt i roi gwybod am unrhyw bryderon sy'n codi wrth gyflawni eu dyletswyddau a bod yn ymwybodol o arwyddion cam-fanteisio. Dylid codi unrhyw bryderon â'r Rheolwr Diogelu Penodedig er mwyn i'r corff allu gweithredu pan gaiff cam-fanteisio ei adnabod.

### Gweledigaeth / Cyd-destun

Mae Hamdden Sir Ddinbych Cyf wedi cael ei drawsnewid dros y degawd diwethaf ac mae bellach yn adnabyddus am ddarpariaeth o safon uchel ledled Sir Ddinbych; gan gynnig arlwy Hamdden newydd, unigryw, fforddiadwy a masnachol gynaliadwy; gan wneud cyfraniad sylweddol at wella iechyd ein trigolion a darparu ffyniant economaidd. Llwyddwyd i gyflawni hyn oherwydd y gweithlu llawn cymhelliant sydd â diwylliant gwych, sy'n gweithio i werthoedd cryf.

Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd arddangos a hyrwyddo gwerthoedd craidd ein cwmni:

- Byddwn yn glynu at ein hegwyddorion uniondeb a gonestrwydd.
- Bydd ein staff yn ymddiried ynom fel eu cyflogwr i wneud yr hyn sy'n iawn bob amser, a byddwn yn eu gwneud yn falch.
- Ni fyddwn yn byth yn derbyn y status quo. Byddwn yn gweithio'n galetach, yn cryfhau ac yn parhau i ddarparu gwasanaeth o'r safon uchaf i'n cwsmeriaid.

Mae gan Hamdden Sir Ddinbych Cyf dair elfen bwysig ond eglur, sy'n nodi a dylanwadu'r ffordd rydym yn gweithio, a pham crëwyd y Cwmni. Caiff y Cwmni ei gydnabod am ei gyfraniad gwerthfawr i'n cymunedau, y ffordd mae'n gweithio â'i bartneriaid a busnesau eraill, ac yn bwysicach fyth, y ffordd y mae'r Cwmni yn gofalu am ei weithlu a'i ddatblygu - mae'r Cwmni'n credu'n gryf mewn agwedd 'un tîm - un cyfrif banc'.



# diolch am eich diddordeb

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch gydag Andy Moreland, Pennaeth Llywodraethu ar 01824 706724, neu andy.moreland@hamddensirddinbych.co.uk

www.denbighshireleisure.co.uk

DLLCommunities

DLLCommunities